

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cyngor Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr.

Trwydded Siop Anifeiliaid Anwes - Amodau'r Drwydded

1. Arddangos y Drwydded

Rhaid i'r Drwydded a roddir gan yr Awdurdod, neu gopi o'r drwydded, gael ei harddangos yn addas neu fod ar gael i'r cyhoedd bob amser.

- 2.** Rhaid i bob cofnod o'r isod gael ei gadw, ei gynnal a'i wneud ar gael ar gais gan swyddog awdurdodedig ar unrhyw adeg resymol.

3. Llety

3.1 Rhaid cadw anifeiliaid bob amser mewn llety ac amgylchedd sy'n addas i'w rhywogaeth o ran eu maint, tymheredd, goleuni, awyru a glendid ac ni ddylent fod yn agored i ddrafftiau. Rhaid cadw'r holl lety mewn cyflwr da.

3.2 Os yw anifeiliaid yn cael eu harddangos yn yr awyr agored, rhaid iddynt gael amddiffyniad sy'n briodol i'w rhywogaeth.

3.3 Rhaid adeiladu llety o ddeunyddiau nad ydynt yn fandyllog, neu rhaid iddynt gael eu trin yn briodol.

3.4 Er mwyn rheoli lledaeniad afiechyd, ac er mwyn atal anaf, rhaid peidio â chadw anifeiliaid mewn llety yn y fath fodd fel y gall anifeiliaid eraill neu'r cyhoedd aflonyddu arnynt.

3.5 Rhaid i'r holl dda byw sydd ar werth fod yn hygyrch ac yn hawdd eu harchwilio, gyda chewyll wedi'u lleoli fel bod llawr y cawell i'w weld yn hawdd.

3.6 Rhaid glanhau llety mor aml ag sy'n angenrheidiol i gynnal safonau hylendid da.

3.7 Pan fo llety ar system renciog, rhaid peidio â chaniatáu i ddŵr, bwyd na baw arall fynd i mewn i'r llety isaf a rhaid gwirio'r awyru'n aml.

3.8 Rhaid i'r holl ategolion a ddarperir yn y llety fod yn addas i'r rhywogaeth.

D.S. Wrth ddylunio llety, rhaid ystyried defnyddio systemau a fyddai'n caniatáu symud yr anifeiliaid mewn argyfwng. Ni fyddai'r ddarpariaeth hon fel rheol yn berthnasol i acwaria a phyllau.

4. Cyfleusterau Ymarfer

4.1 Rhaid cael cyfleusterau addas a digonol lle bo hynny'n briodol.

D.S. Ar gyfer cŵn bach, lle bo angen, rhaid darparu ardal ymarfer dan do sydd o leiaf 2.46 metr sgwâr (26 troedfedd sgwâr). Rhaid i ardaloedd ymarfer fod ag isafswm uchder o 1.8 metr (6 troedfedd) i hwyluso mynediad digonol gan staff ar gyfer glanhau.

5. Cofrestr Anifeiliaid

5.1 Rhaid cadw cofrestr prynu da byw ar gyfer yr holl dda byw. Rhaid cadw cofrestr gwerthu ar gyfer:

- a. Cŵn bach;
- b. Cathod bach;
- c. Parotiaid;
- d. Rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (fel y'i haddaswyd)

D.S. Gellir gwneud hyn drwy goesgyfeirio at ffeil anfoneb. Pwrpas y gofrestr yw canfod tarddiad y da byw, ac ar gyfer cyswllt brys â'r prynwr. Rhaid cael a chofnodi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y prynwr.

6. Niferoedd a Dwysedd Stocio

6.1 Bydd y nifer uchaf o anifeiliaid sydd i'w stocio yn yr adeilad yn cael ei reoli gan y llety sydd ar gael, fel y nodwyd yn y rhestrau dwysedd y manylir arnynt yn yr atodlenni a roddir gan yr awdurdod trwyddedu a'i nodiadau canllaw. Ni chaniateir stocio na gwerthu unrhyw anifeiliaid eraill, ac eithrio'r rhai a bennir yn y drwydded, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod trwyddedu.

7. Iechyd, Clefydau a Chynefino

7.1 Rhaid i'r holl stoc sydd ar werth fod mewn iechyd da ac yn rhydd o bla parasitig amlwg cyn belled ag y gellir ei bennu'n rhesymol heb archwiliad milfeddygol.

7.2 Rhaid i unrhyw anifail sâl neu anafedig dderbyn gofal a thriniaeth briodol yn ddi-oed. Ni ddylai staff dibrofiad drin anifeiliaid sâl neu anafedig oni bai eu bod o dan oruchwyliaeth person sydd â phrofiad priodol.

D.S. Gall “Gofal a Thriniaeth” gynnwys ewthanasia, ond **NI ELLIR O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU** ewthaneiddio anifail heblaw mewn dull trugarog ac effeithiol. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid ceisio cyngor milfeddygol.

7.3 Rhaid darparu cyfleusterau i ynysu unrhyw anifeiliaid sâl.

D.S. Ar gyfer pysgod addurnol, mae triniaeth UV mewn-lein neu ddyfeisiau sterileiddio eraill yn darparu ffordd o ynysu tanciau unigol mewn systemau tanciau lluosog. Rhaid iddynt fod o faint priodol, a'u cynnal yn unol ag argymhellion gweithgynhyrchwyr.

7.4 Rhaid i bob anifail dderbyn brechiadau priodol lle bo angen ar gyfer y rhywogaeth, fel y cynghorir gan filfeddyg. Rhaid ceisio cyngor milfeddygol lle bynnag y bo angen.

7.5 Ni ddylid cynnig gwerthu unrhyw anifail sydd ag annormaledd amlwg, sylweddol, a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd ei fywyd. Pan nad ydych yn siŵr, rhaid ceisio cyngor milfeddygol.

7.6 Rhaid caniatáu cyfnod ymgynefino addas i bob anifail cyn ei werthu.

7.7 Rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i atal cychwyniad clefyd neu ledaeniad clefyd. Ni fydd unrhyw anifail sy'n dioddef o unrhyw glefyd heintus neu ymledol, neu y gellid yn rhesymol amau ei fod wedi dod i gysylltiad ag unrhyw anifail arall sy'n dioddef o unrhyw glefyd heintus neu ymledol, neu sydd yn llawn o bla parasitiaid, yn cael dod i mewn i'r safle na'i gadw yno, oni bai ei fod wedi'i ynysu'n effeithiol.

7.8 Rhaid cadw torlwythi unigol o gŵn bach a chathod bach ar wahân i dorlwythi eraill.

7.9 Rhaid cymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i rwystro lloches, neu gyflwyniad cnofilod a phlâu eraill i'r adeilad.

D.S. Mae 'cnofilod' a 'phryfed' yn eithrio da byw sydd i'w gwerthu neu i'w bwydo.

8. Bwyd a diod

8.1 Rhaid cyflenwi digon o fwyd a diod i anifeiliaid, sy'n briodol i'w hanghenion, ac ar gyfnodau addas.

8.2 Rhaid i'r holl fwyd fod yn addas ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.

8.3 Rhaid adeiladu a gosod cynwysyddion bwyd a diod i leihau halogiad ysgarthol a gollyngiadau.

8.4 Rhaid darparu a glanhau nifer addas a digonol o gynwysyddion yn rheolaidd.

9. Storio bwyd

9.1 Rhaid i'r holl fwyd, ac eithrio'r bwydydd byw y bwriedir eu bwydo i dda byw yn yr adeilad, gael eu storio mewn cynwysyddion caeedig anhydraidd.

9.2 Rhaid cadw'r cynwysyddion a'r offer a ddefnyddir i fwydo mewn cyflwr glân a chadarn.

10. Arsyllw

10.1 Rhaid ymweld â phob da byw yn rheolaidd, o leiaf unwaith y dydd, fel sy'n briodol i'r rhywogaeth. Argymhellir cynnal system o gofnodi'r arsyllwadau.

10.2 Rhaid symud ar unwaith unrhyw anifeiliaid y canfyddir eu bod wedi marw yn ystod archwiliadau, a rhaid cadw cofnodion o'r;

- a) Rhywogaethau a gollwyd;
- b) Faint o anifeiliaid a gollwyd;

- c) Dyddiad y golled;
- d) Symud, dull gwaredu/casglu carcassau, a derbynebau lle bo hynny'n berthnasol

11. Carthion a dillad gwely budr

- 11.1** Rhaid cadw'r holl ddillad ysgarthol a budr mewn modd hylan a'u storio mewn cynwysyddion anhydraidd gyda chaeadau ffitrwydd clôs - i ffwrdd o olau haul uniongyrchol.
- 11.2** Rhaid symud dillad gwely ysgarthol a budr o'r adeilad yn rheolaidd, eu gwaredu bob wythnos o leiaf er boddhad yr awdurdod lleol priodol, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ac arfer rheoli gwastraff da.
- 11.3** Rhaid cadw pob cynhwysydd mewn cyflwr glân.

12. Cludiant

- 12.1** Wrth dderbyn stoc, rhaid i'r trwyddedai wneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cael ei gludo mewn modd diogel addas. Fe'ch cynghorir (argymhellir) i gofnodi nifer cofrestru cerbydau sy'n cludo da byw.
- 12.2** Rhaid cludo unrhyw dda byw a dderbynnir neu a ddanfonir yn unol â'r rheoliadau a nodir yn y ddeddfwriaeth gyfredol, megis Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) 1997.

D.S. Yn achos cludiant mewn awyren, rhaid dilyn rheoliadau anifeiliaid byw IATA fel safon gyfreithiol ofynnol.

13. Cynwysyddion Cludiant

- 13.1** Rhaid cludo da byw neu eu rhoi i brynwyr mewn cynwysyddion addas.

14. Gwerthu Da Byw

- 14.1** Ni ddylid gwerthu unrhyw famaliaid heb eu diddyfnu neu, os ydynt wedi'u diddyfnu, mewn oedran na ddylent fod wedi eu ddiddyfnu.
- 14.2** Yn achos anifeiliaid nad ydynt yn famaliaid, rhaid iddynt allu bwydo eu hunain.

15. Anifeiliaid Gwyllt Peryglus

- 15.1** Pan gedwir anifeiliaid gwyllt peryglus, rhaid i'r cewyll fod o wneuthuriad diogel sy'n briodol i'r rhywogaeth. Rhaid ymgorffori rhwyll fân wifrog, gwydr neu rwystr diogelwch plastig yn y system gawell.
- 15.2** Rhaid hysbysu Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (sef yr awdurdod lle mae'r busnes wedi'i leoli ynddo) yn ysgrifenedig os yw'r siop anifeiliaid anwes yn dymuno cynnig gwerthu unrhyw anifail a restrir yn yr Atodlen i'r Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus.
- 15.3** Pan werthir anifail sydd wedi'i restru yn yr Atodlen i'r Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus, rhaid i'r trwyddedai roi manylion ysgrifenedig am y gwerthiant i'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir cyn pen 7 diwrnod, i gynnwys y math hwnnw o anifail a'r enw a chyfeiriad y prynwr.

16. Cyngor Gofal i Anifail Anwes

- 16.1** Rhaid sicrhau bod taflenni gofal anifeiliaid anwes neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig tebyg eraill ar gael i gwsmeriaid yn rhad ac am ddim ar adeg prynu, yn ogystal ag unrhyw gynnig i brynu llyfrau neu daflenni gofal anifeiliaid anwes.
- 16.2** Rhaid i brynwyr gael cyngor priodol ynghylch gofalu am yr anifail, a lle bo angen, ar gynnal a chadw a defnyddio ategolion.
- 16.3** Rhaid i ddeunyddiau cyfeirio priodol fod ar gael i'w defnyddio gan staff bob amser.

D.S. Gellir cael manylion sefydliadau a allai ddarparu cyngor pellach gan yr awdurdod trwyddedu.

17. Hyfforddiant Staff a Gwybodaeth Da Byw

- 17.1** Ni ddylid stocio na gwerthu unrhyw anifail oni bai bod y staff (neu o leiaf un aelod o'r staff) yn gyfarwydd â gofal a lles yr anifeiliaid sy'n cael eu stocio a bod ganddo gymhwyster cydnabyddedig neu brofiad addas.



17.2 Yn achos ceisiadau newydd (nid adnewyddiadau), rhaid i o leiaf un aelod o staff sy'n gweithio yn yr adeilad trwyddedig feddu ar Dystysgrif Rheoli Siop Anifeiliaid Anwes City & Guilds, neu ryw gymhwyster priodol arall, neu rhaid iddo fod yn weithredol yn ymgymryd â hyfforddiant, a sicrhau'r cymhwyster cyn pen dwy flynedd ar ôl dal y drwydded.

17.3 Rhaid i'r trwyddedai lunio polisi hyfforddi ysgrifenedig ar gyfer yr holl staff parhaol, a bydd gofyn iddo ddangos bod hyfforddiant systematig yn cael ei gynnal.

D.S. Gellir cael manylion sefydliadau a allai ddarparu cyngor pellach ar hyfforddiant gan yr awdurdod trwyddedu.

18. Tân a Rhagofalon Brys Eraill

18.1 Rhaid i ragofalon brys a gweithdrefnau ysgrifenedig addas fodoli a bod yn hysbys i'r holl staff, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwagio da byw.

D.S. Mae'r wireb gyffredinol "pobl yn gyntaf" yn gyngor da.

18.2 Rhaid i fynedfeydd ac allanfeydd fod yn glir o rwystrau bob amser.

18.3 Rhaid darparu offer ymladd tân addas a'i gynnal a'i wasanaethu'n rheolaidd a'i leoli yn unol â chyngor swyddogion Gwasanaeth Tân De Cymru ac mewn ymgynghoriad â'r awdurdod trwyddedu.

18.4 Rhaid i'r trwyddedai, neu ddeiliad allwedd dynodedig, fod o fewn pellter rhesymol i'r adeilad ar bob amser, a bod ar gael i ymweld â'r eiddo mewn argyfwng.

D.S. Mewn amgylchiadau arferol, byddai pellter rhesymol yn golygu ddim mwy nag 20 munud o amser teithio i ffwrdd o'r adeilad trwyddedig.

18.5 Rhaid rhoi rhestr o ddeiliaid allweddol ar gadw gyda'r heddlu lleol a'r awdurdod trwyddedu.

18.6 Er budd lles anifeiliaid, rhaid arddangos yr hysbysiad canlynol ym mlaen y siop. "Mewn achos o argyfwng, deialwch 999". Rhaid arddangos rhif ffôn yr orsaf heddlu leol hefyd.



18.7 Pan fydd siopau anifeiliaid anwes wedi'u lleoli mewn adeilad arall, rhaid i'r trwyddedai neu'r deiliaid allweddi gael mynediad bob amser i'r adeilad sy'n cynnwys y da byw.

18.8 Rhaid cynnal a chadw pob gosodiad ac offer trydanol mewn cyflwr diogel.

D.S. Argymhellir yn gryf bod synwryddion mwg a cherrynt gweddilliol neu ddyfeisiau tebyg eraill yn cael eu gosod a'u cynnal yn rheolaidd.

Nodiadau Canllaw i Siopau Anifeiliaid Anwes

1. Gall unrhyw berson a dramgwyddir gan unrhyw amod a osodir gan yr awdurdod trwyddedu ar drwydded siop anifeiliaid anwes apelio i'r Llys Ynadon a chaiff y llys roi unrhyw gyfarwyddiadau mewn perthynas â'r amod sy'n briodol yn eu barn hwy.
2. Os bydd unrhyw amod y mae'r drwydded hon yn ddarostyngedig iddo yn cael ei dorri neu na chydymffurfir ag ef, bydd y person y rhoddir y drwydded iddo yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na £500.00 a/neu i dymor o garchar o hyd at dri mis.
3. Cynghorir unrhyw berson sy'n dymuno agor siop anifeiliaid anwes i fynd at yr awdurdod trwyddedu i drafod cynigion a gofynion y drwydded. Dylid nodi na fydd unrhyw gais newydd yn cael ei ganiatáu oni bai bod gan o leiaf un aelod o staff a fydd yn gweithio yn yr adeilad Dystysgrif Rheoli Siop Anifeiliaid Anwes City & Guilds neu ryw gymhwyster priodol arall, neu rhaid iddo fod yn weithredol yn ymgymryd â hyfforddiant, a sicrhau'r cymhwyster cyn pen dwy flynedd ar ôl dal y drwydded
4. **Argymhellion pellach.**
 - 4.1 **Gwerthu da byw:** - Ni ddylid gwerthu unrhyw anifail i unrhyw berson o dan 16 oed nad yw'n hysbys i'r manwerthwr oni bai bod y person hwnnw yng nghwmni rhiant neu warcheidwad cyfreithiol neu'n darparu caniatâd ysgrifenedig. Gellir cynnal gwerthiannau dilynol i berson ifanc o dan 16 oed (ond dros 12 oed) sy'n hysbys i'r manwerthwr yn absenoldeb rhiant



neu warcheidwad cyfreithiol neu gydsyniad ysgrifenedig priodol, ar yr amod bod y manwerthwr yn fodlon;

- a. Na fyddai'r rhiant/gwarcheidwad yn gwrthwynebu'r caffaeliad.
- b. Bod y person ifanc yn ddigon gwybodus am anghenion, gofal a natur y rhywogaeth a gaffaelir.
- c. Bod bwriad y person ifanc tuag at ei gaffael yn gyson â llesiant yr anifail dan sylw.

4.2 Gwneud cais am drwydded: - Er na ddarperir ar ei gyfer yn y Ddeddf, argymhellir bod ymgeiswyr yn ymgynghori â'r awdurdod trwyddedu cyn cyflwyno cais.

4.3 Cymdeithas Fasnach: - Argymhellir bod trwyddedigion yn gwneud cais am aelodaeth o gymdeithas fasnach briodol. Gall cymdeithas o'r fath fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor ar bob mater sy'n ymwneud â rhedeg siop anifeiliaid anwes a gofalu am anifeiliaid unigol a'u trin.

4.4 Lletya Anifeiliaid: - Ni ddylid defnyddio unrhyw siop anifeiliaid anwes at ddibenion lletya unrhyw rywogaeth o anifail nad oes ganddynt drwydded i'w werthu ar ei gyfer. Os bwriedir lletya cathod a chŵn, rhaid darparu lletya addas a digonol.

4.5 Categoriâu o anifeiliaid y gellir trwyddedu siop anifeiliaid anwes i'w cadw: -

- 1) Cŵn a Chathod (Cŵn Bach a chathod Bach)
- 2) Mamaliaid domestig llai e.e. cwningod, moch cwta, gerbilod, bochdewion, llygod mawr, llygod, chinchillas, gwiwerod rhesog neu ffuredau.
- 3) Mamaliaid domestig mwy e.e. geifr, moch boliog (pot-bellied pigs).
- 4) Primatiaid e.e. marmosetiaid.
- 5) Mamaliaid eraill.
- 6) Parotiaid, parotynod a macawiaid.
- 7) Adar eraill.
- 8) Ymlusgiaid.
- 9) Amffibiaid.
- 10) Infertebratau pysgod a dyfrol.
- 11) Fertebratau eraill.

5. Bydd y nifer uchaf o anifeiliaid sydd i'w stocio yn yr adeilad yn cael ei reoli gan y llety sydd ar gael, fel y nodir yn y rhestrau dwysedd manylion yn yr atodlenni canlynol. Ni cheir stocio unrhyw anifeiliaid eraill, ac eithrio'r rhai a bennir yn y drwydded, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod trwyddedu.

Atodlen 1

1.1 Dwysedd Stocio – Adar mewn cewyll

- 1.1 “Ni chaniateir cadw unrhyw rywogaeth o aderyn mewn llety nad yw'n rhoi digon o le i'r rhywogaeth honno ymestyn ei hadenydd yn rhydd a llawn yn naturiol, a bydd nifer yr adar sy'n cael eu cartrefu o'r fath fel nad yw gorlenwi yn lleihau'r rhyddid hwnnw'n sylweddol. Rhaid darparu clwydi a phwyntiau bwydo a dyfrio i adar cynffon hir neu adar llawn plu i rwystro'r plu hynny rhag cael eu baeddu neu eu difrodi fel arall”. Mae hyn yn cyfeirio at Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 na ddylid ei thorri (yn enwedig Adran 8 o'r Ddeddf).
- 1.2 I adar sy'n clwydo, rhaid darparu nifer ddigonol o glwydi (fel y bo'n briodol) mor uchel fel y gall yr aderyn orffwys ei ben heb i'w ben gyffwrdd â'r top, a'i gynffon rhag cyffwrdd â gwaelod y gawell.
- 1.3 Dylid defnyddio rhwyd o ansawdd uchel wedi ei phadio wrth ddal adar mewn Adardy.
- 1.4 Mae isafswm arwynebedd llawr yn berthnasol i stoc ifanc. I stoc oedolion a gynigir ar werth, dylid dyblu'r dimensiynau. I gael cyngor ar oedran y stoc, fe'ch cynghorir i gysylltu â milfeddyg.

Atodlen 2

2 Dwysedd Stocio – Mamaliaid Bach Ifanc

Anifeiliaid	Nifer o anifeiliaid	1-4	5	6	7	8	9	10	Isafswm Uchder cawell	Isafswm dyfnder cawell
Llygod, bochdewion, gerbilod	Cm sgwâr	450	525	600	675	750	825	900	25	25
Llygod mawr	Cm sgwâr	675	785	900	1010	1125	1235	1350	30	30
Moch cwta	Cm sgwâr	1350	1570	1800	2020	2250	2470	2700	30	30
Cwningod hyd at 2kg, cathod bach, ffuredau, chinchillas, gwiwerod rhesog	Cm sgwâr	2250	2625	3000	3375	3750	4125	4500	40	30
Cŵn bach hyd at 12 wythnos ar y mwyaf	Cm sgwâr	10,000	12,500	15,000	17,500	20,000	22,500	25,000	Uchder dwbl wrth ysgwydd, lleiafswm 50	0.9 metr

(Rhoddir yr holl ddimensiynau mewn centimetrau sgwâr oni nodir yn wahanol)

- 2.1** Bydd yr ystod o gyfleoedd ymddygiadol i lawer o'r anifeiliaid a restrir yn yr atodlen uchod yn cynyddu trwy gyfoethogi'r amgylchedd gydag ategolion.
- 2.2** Dylid ystyried silffoedd wedi'u codi wrth asesu cyfanswm arwynebedd y llawr.
- 2.3** Dylid ystyried bod ail-gartrefu cwningod sy'n oedolion dros dro (hyd at chwe diwrnod) mewn cewyll llai na'r hyn a nodwyd uchod yn dderbyniol.
- 2.4** Mae'r dwyseddau stocio a argymhellir uchod yn ddigonol ar gyfer cartrefu marmosetiaid. Rhaid cadw marmosetiaid mewn cewyll sy'n ddigon mawr i ganiatáu ar gyfer symud yn naturiol, fel dringo a siglo.

Atodlen 3

3 Dwysedd Stocio – Pysgod Addurnol

- 3.1** Mae bron yn amhosibl pennu faint o bysgod sydd i'w cadw mewn tanc yn ôl pwysau/cyfaint neu gymhareb nifer y pysgod/cyfaint yn unig.
- 3.2** Byddai'r amrywiad mewn dyluniad systemau, technegau hwsmonaeth a'r mathau o bysgod dan sylw yn golygu bod unrhyw ddull o'r fath yn rhy gymhleth i fod yn ymarferol.
- 3.3** Mae cynnal safonau ansawdd dŵr yn hanfodol ac mae'n ffordd syml ond effeithiol o bennu dwysedd stocio. Dylid cynnal profion ansawdd dŵr o leiaf unwaith yr wythnos mewn systemau canolog a dylid profi 10% o danciau unigol yn yr un modd. Rhaid cofnodi canlyniadau profion anfoddfaol mewn cofrestr ynghyd â'r camau cywirol a gymerwyd. Rhaid cynnal profion pellach pan fydd archwiliad gweledol o'r tanc yn nodi'r angen.

Meini Prawf Ansawdd Dŵr

(1mg/litr – 1ppm)

Dŵr Oer

*Ocsigen Toddedig	-isafswm	6mg/litr
*Amonia Rhydd	-mwyafswm	0.02mg/litr
Nitraid	-mwyafswm	0.2mg/litr
Nitrad	-mwyafswm	50mg/litr uwchben dŵr tap amgylchynol

Pysgod Trofannol

*Ocsigen Toddedig	-isafswm	6mg/litr
*Amonia Rhydd	-mwyafswm	0.02mg/litr
Nitraid	-mwyafswm	0.2mg/litr
Nitrad	-mwyafswm	50mg/litr uwchben dŵr tap amgylchynol

Rhywogaethau Morol Trofannol

*Ocsigen Toddedig	-isafswm	5.5mg/litr
*Amonia Rhydd	-mwyafswm	0.01mg/litr
Nitraid	-mwyafswm	0.125mg/litr
Nitrad	-mwyafswm	40mg/litr (Ffigur absoliwt yw hwn, nid yw'n berthnasol i ddŵr tap amgylchynol)

*pH -isafswm 8.1
(Morol Trofannol yn Unig)

*Dylid gwirio'r paramedrau hyn yn gyntaf. Dim ond os oes problem gyda'r profion hyn y mae angen gwirio'r lefelau nitraid a nitrad.

3.4 Gellir cael cyngor ac arweiniad pellach ar feini prawf ansawdd dŵr gan The Ornamental Aquatic Trade Association LTD, Unit 5, Narrow Wine Street, Trowbridge, Wiltshire, BA14 8YY.

Atodlen 4

4 Dwysedd Stocio – Rhywogaethau Eraill

4.1 Dylai rhywogaethau eraill gael eu cartrefu mewn llety sy'n briodol i faint, oedran a'r math o rywogaeth; ac i osgoi gorlenwi. Dylai fod digon o le i symud yn naturiol ac yn rhydd, na ddylid ei gyfyngu naill ai gan faint y llety na nifer yr anifeiliaid yn y daliad hwnnw. Rhaid cynnal tymheredd cywir ar gyfer y rhywogaeth.

4.2 Dylid ceisio cyngor a chymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu lle bynnag y mae amheuaeth ynghylch gwerthu rhywogaeth.